

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **10 Gorffennaf 2018** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-07/18: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Elizabeth George; (Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng. Sian Williams ar gyfer eitem 7-07/18 b cais cynllunio C18/0251/35/LL)

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Sian Williams
Clerc – Dr Catrin Jones.

2-07/18 Ymddiheuriadau:

Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Henry Jones; Cyng. Dafydd Lloyd;

3-07/18: Datgan diddordeb

Cyng. Elizabeth George ar gyfer eitem 7-07/18 Ceisiadau Cynllunio rhif cais C18/0251/35/LL

4-07/18 Cadarnhau cofnodion mis Mehefin2018

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-07/18 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

- a. Cyngor Gwynedd -Gwasanaethau leuenctid Cyngor Gwynedd . Derbyniwyd llythyr dyddiedig 3 07 2018 yn nodi y byddai gwasanaeth ar ei newydd wedd yn cychwyn i bobl ifanc ym mhob rhan o'r sir. Oherwydd hyn ni fyddai'r Cyngor yn cynnal Clwb leuenctid Cymdeithasol traddodiadol mewn rhai pentrefi penodol dros fisoedd y Gaeaf o Fedi 2018 ymlaen. Fel Cyngor maent yn awyddus i glywed gan unrhyw gynghorau cymuned a thref sydd yn awyddus i ystyried parhau i gynnal Clwb leuenctid Cymdeithasol yn eu cymuned. Maent yn hapus i gyfarfod er mwyn gweld sut medrant gefnogi sefydlu'r trefniadau hyn gan gynnwys unrhyw drefniadau fydd eu hangen i bontio o'r hen dref i Glwb Cymdeithasol newydd. Byddai'r mater ar agenda'r Cyngor yng nghyfarfod Mis Medi.
- b. Cyngor Gwynedd - derbyniwyd rhybudd dyddiedig 5 -07 2018 i gau Lôn Fêl Criccieth o 23 Gorffennaf -am fyny at 3 diwrnod oherwydd gosod gwaith nwy newydd
- c. Cyngor Gwynedd -derbyniwyd rhybudd dyddiedig 5-07 2018 am orchymyn a fydd yn eu hawdurdodi i gau Ffordd y Felin, Criccieth ar 14 07 2018 ar adeg diwrnod agored yr RNLI.

6-07/18: Gohebiaeth

- a. Cartrefi Cymunedol Gwynedd - Datblygiad newydd Waun Helyg, Criccieth -e-byst 8 a 25 Mehefin 2018

Roedd gwahoddiad i gynnig rhestr o 3 enw yn nhrefn blaenoriaeth ar gyfer y datblygiad. Diolchwyd i'r Cyng. Robert Cadwalader am ei waith ymchwil a oedd wedi cynnwys edrych ar fap y Degwm 1839 yn enwi'r caeau cyfagos i'r datblygiad.

Penderfyniad: i gynnig yr enwau canlynol mewn trefn blaenoriaeth:

1: Rhos Isa; 2. Clwt Eithin; 3. Stad Glanllyn.

- b. Un Llais Cymru - Hyfforddiant Gogledd Cymru - e-bost 25 Mehefin 2018 – (wedi ei gylchredeg yn barod)

Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu at Un Llais Cymru yn gofyn am leoliadau mwy lleol i'r cyrsiau - heb gael ymateb

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- c. Un Llais Cymru - Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru dydd Sadwrn 29ain Medi 2018 -e-bost 2 Gorffennaf 2018.

Penderfyniad: Y Clerc i fynychu ac i godi siec ar ddiwedd y cyfarfod er mwyn archebu lle erbyn diwedd Awst oherwydd gostyngiad o £10 - sef £85

7-07/18: Ceisiadau Cynllunio

- a. C18/0559/35/MG Codi 34 uned lloches i'r henoed, llety warden, 2 lety staff, cyfleusterau cymunedol, darparu parcio ar gyfer preswylwyr, staff a gwesty George IV a thirlunio (cais materion a godwyd yn ôl o dan ganiatâd C16/0292/35/LL)

Penderfyniad: Gwrthwynebu a danfon llythyr yn esbonio hyn ar sail:

- Gor ddatblygiad o'r safle
- Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol
- Colli rhan o faes parcio'r dref ac nad oedd nifer y llefydd parcio beth bynnag yn ddigonol ar gyfer preswylwyr y datblygiad, gwestai a staff Gwesty George IV
- Nad oedd asesiad o effaith ieithyddol y datblygiad ar y dref

Cais wedi ei dderbyn ar ôl cyhoeddi'r agenda a oedd angen sylw cyn y cyfarfod nesaf:

- b. C18/0251/35/LL Cais llawn i godi 3 tŷ newydd deulawr ynghyd â modurdy ar wahan - 2 Radcliffe Road, Criccieth, LL52 0LB. Cadeiriwyd y rhan yma o'r cyfarfod gan y Cyng. Sian Williams gan fod y Cadeirydd, y Cyng. Elizabeth George wedi datgan diddordeb. Ni wnaeth y Cyng. E George gymryd rhan yn y drafodaeth na'r penderfyniad.

Penderfyniad: Danfon sylwadau i gyfeirio consyrn y Cyngor am garthffosiaeth, draeniau a "run-off" dŵr.

8-07/18 Llenwi Sedd Wag ar y Cyngor Tref

Nodwyd bod y rhybudd o sedd wag a oedd wedi ei baratoi gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi cael ei rhoi ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref a'r safle We am y cyfnod penodol er mwy rhoi siawns i etholwyr ddefnyddio eu hawl i ofyn am etholiad. Nid oedd cais wedi dod i law erbyn y dyddiad cau, sef 6 Gorffennaf 2018. Roedd felly hawl gan y Cyngor i gyfethol i'r sedd wag,

Penderfyniad:

Trefnu bod hysbyseb cyhoeddus yn cael ei osod ar Safle We a hysbysfwrdd y Cyngor yn nodi bod lle gwag ar y Cyngor i'w llenwi yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Dyddiad cau o 31 Awst 2018. Bydd y Clerc yn gofyn am lythrau cyflwyno gan bob ymgeisydd yn rhoi gwybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain.

9-07/18 Archwiliad o Gyfrifon y Cyngor Tref 2017-18

Archwiliad Allanol

Cadarnhawyd bod y Clerc wedi cyflwyno'r wybodaeth archwilio i'r BDO, yr archwilwyr allanol.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

10-07/18 Adroddiad cyllid 2018/19

Derbyniwyd adroddiad cyllidol gan y Clerc, sydd wedi ei gylchredeg i'r holl aelodau - a oedd yn dangos Incwm a Gwariant cyllid yn erbyn y gyllideb fyny at ddiwedd Mehefin 2018 a'r cysondeb banc am y cyfnod.

Nodwyd bod £11,887.08 wedi'i wario (gan gynnwys TAW) allan o'r £84,810 a oedd wedi ei neilltuo ar gyfer y gyllideb gyffredinol. Roedd £35,000 wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau i gynnwys y Cynllun Cymunedol. Roedd £350 o gyllideb wedi'i wario o'r £9885.00 arian prosiect y Loteri Cofio Cyfraniad Criccieth. Byddai swmp gwariant o dan y prosiect hwn yn mynd i dalu am waith y Rheolwr Prosiect a hefyd y deunyddiau a oedd eisoes wedi eu talu amdanynt gan Goleg Meirion Dwyfor. Nodwyd bod bil adeiladwyr i'w dalu'r mis yma ar gyfer gosod teils yng ngardd y Neuadd Goffa.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a diolchwyd i'r Clerc am yr adroddiad.

11-07/18 Cynllun Cyhoeddi Deddf Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor Tref

Roedd y cynllun wedi ei gylchredeg.

Penderfyniad: Cymeradwyo a gosod ar safle We'r Cyngor.

12-07/18 Cylch Gorchwyl Is-bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol y Cyngor Tref

Roedd cylch gorchwyl drafft wedi ei gylchredeg – yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn y cyfarfod diwethaf i ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid i gynnwys materion polisi a rheolaethol – sylwadau?

Penderfyniad: Cymeradwyo'r cylch gorchwyl (Atodiad A) a chytuno i drefnu cyfarfod o'r is-bwyllgor ar nos Fawrth 18 Medi 2018.

13-07/18 Bocsiâu Planhigion ger y Pines - trafod opsiynau ar gyfer adnewyddu

Nodwyd bod gohebiaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn cyfeirio at gostau uchel o roi bocsiâu newydd allan o ddefnyddiau wedi'i ailgylchu ac na fyddai'r Cyngor yn gweld ffordd i ariannu hyn. Byddai bocsiâu cyffelyb mewn derw yn hanner y gost. Opsiwn arall fyddai cael eu gwared yn gyfan gwbl ac ail feddwl gan osod rhywbeth llai yn eu lle. Roedd y Clerc wedi ymgynghori gyda Criccieth yn ei Blodau a oedd yn gefnogol i waredu'r bocsiâu presennol a gosod rhywbeth llai mewn pren yn eu lle. Byddai Criccieth yn ei Blodau yn hapus i blannu ac edrych ar ôl y planhigion yn y bocsiâu newydd.

Penderfyniad: Bod y Clerc yn sgwennu at Gyngor Gwynedd i gynnig ei bod yn gwaredu'r bocsiâu planhigion presennol ac yn paratoi cynlluniau am focsiâu newydd, llai i'w hystyried gan y Cyngor Tref a Criccieth yn ei Blodau.

14-07/18 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth - diweddariad

Nodwyd bod y Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r digwyddiad ar 11 Tachwedd am osod a thanio Beacon i ofyn am gyfarwyddyd. Roedd wedi derbyn cydnabyddiaeth o'i dderbyn a bod swyddog yn edrych ar y mater.

Nodwyd hefyd bod y Clerc wedi bod mewn cyswllt gyda'r cwmni i drefnu prynu'r Beacon ar gyfer noson y 11eg Tachwedd. Byddai angen codi sic i dalu amdano (£432.00).

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a chytuno i godi sic i dalu am y Beacon yn y cyfarfod hwn. Cytunodd y Cyng. Phil Jones i dderbyn y Beacon ar ran y Cyngor.

15-07/18: Cynllun Cymunedol Criccieth - diweddariad

Nodi bod yr ail weithdy wedi ei gynnal ar nos Fercher 13 Mehefin – a nodiadau o'r gweithdy hwn wedi'u cylchredeg i aelodau'r Cyngor. Roedd y gwaith yn dod yn ei flaen yn dda:

Bellach roedd:

- blaenoriaethau wedi cael eu cytuno o dan y 6 thema,
 - Yr amgylchedd naturiol
 - Parcio, rheolaeth traffig ac arwyddion
 - Cyfleusterau dinesig a thwtrwydd
 - Diwylliant, bywyd cymdeithasol ac adeiladau cymunedol
 - Yr Economi a chyfleusterau cychod
 - Pobl ifanc
- egin grwpiau tasg wedi cychwyn llunio camau gweithredu.

Ond roedd angen cymorth mwy o bobl i ymuno gydag ambell i grŵp tasg ac i symud ymlaen gyda'r camau gweithredu er mwyn sicrhau bod yr holl waith o greu syniadau ar sut i wella Criccieth wedi bod yn werth chweil a bod digon o bobl yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o wireddu'r syniadau dros y blynyddoedd nesa'.

Wedi penderfynu gohirio'r trydydd gweithdy tan Fis Medi.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a chynnal y trydydd gweithdy ar Nos Fercher 19 Medi yn y Neuadd Goffa.

16-07/18: Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Nodwyd bod ymateb wedi dod gan Swyddog Cyngor Gwynedd i ddweud nad oedd dim cynnydd wedi digwydd o ran yr ochr gyfreithiol. Maent yn ceisio cyngor cyfreithiol i weld os yw'r dystiolaeth a oedd wedi ei ddarparu yn ddigonol er mwyn gallu sefydlu bod Cyngor Tref Criccieth yn olynydd priodol. Os byddai hyn y bodloni cyfreithwyr Cyngor Gwynedd yna roedd yn cymryd y byddai'r Cyngor Tref Criccieth yn dymuno perchnogi'r eiddo. Roedd ei gynnig i'r Cyngor fabwysiadu'r adeilad beth bynnag dal ar agor.

Penderfyniad: Ysgrifennu nôl i ddweud bod y Cyngor Tref yn synnu bod y mater yma yn cymryd mor hir ac i nodi bod angen y cyngor cyfreithiol ar y Cyngor Tref er mwyn symud ymlaen gyda'r drafodaeth am ddyfodol yr adeilad.

17-07/18: Torri gwair yn y dref

Roedd y Clerc wedi sgwennu at Swyddog Gwynedd i fynegi dymuniad y Cyngor i dorri gwair mis Awst wythnos cychwyn 20 Awst - ond heb gael ymateb. Nodwyd bod cwyn wedi dod i law am dorri gwair mewn un ardal o'r dre cyn i'r sbwriel gael eu hel - roedd y gwyn wedi ei rhannu gyda Chyngor Gwynedd. Nodwyd siom gyda safon y torri gwair yn y dref i gymharu â safon gwaith y contractwr preifat a dorrodd y gwair un waith i'r Cyngor Tref y llynedd. Roedd y Cyngorwyr yn derbyn sylwadau o gonsyrn cyson am safon y gwaith. Roedd y Cyngor Tref yn talu £5k yn ychwanegol i Gyngor Gwynedd eleni am dorri gwair ac nid oedd y sefyllfa yn foddhaol.

Penderfyniad: Ysgrifennu i Swyddog Cyngor Gwynedd i fynegi'r pwyntiau uchod am safon y torri gwair.

18-07/18: Parcio yng Nghriccieth

Mynegwyd consyrn am y ffaith bod bysiau yn parcio a blocio'r ffyrdd am gyfnodau hir tu allan i Westy'r Lion a'r George IV a bod hyn yn fater diogelwch. Roedd hefyd angen gwell arwyddion yn y dref i gyfeirio ceir a bysiau i'r meysydd parcio.

Penderfyniad: Ysgrifennu i'r ddau westy uchod yn mynegi consyrn y Cyngor Tref a gofyn iddynt sicrhau bod bysiau yn symud yn brydlon i'r maes parcio agosaf yn dref. Hefyd, i ofyn i'r Is-bwyllgor Cynllunio a Thrafnidiaeth i baratoi cynllun a chynnwys priodol ar gyfer arwyddion parcio ac i adrodd nôl i'r Cyngor maes o law.

19-07/18 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd

20-07/18 Meinciau Tref Criccieth

Y Clerc wedi derbyn y biliau ar gyfer prynu a gosod y fainc gofio 100 mlynedd. Roedd y Cyngor wedi cytuno talu treian o'r costau i Griccieth yn ei Blodau a'r Neuadd Goffa. Biliau i'w talu o dan 22-07/18 isod.

Penderfyniad: Nodwyd bod yna sylwadau ffafriol iawn am ansawdd ac edrychiad y fainc gofio - diolchwyd i Griccieth yn ei Blodau ac i'r Neuadd Goffa am drefnu.

21-07/18: Derbyniadau

22-07/18: Taliadau

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£72.90 (siec 101250)
• Cyflog y Clerc (Mehefin)	£659.98(siec 101251)
• Costau Clerc Swyddfa	£283.33.(siec 101252)
• Criccieth in Bloom	£316.00(siec 101253)
• Neuadd Goffa Criccieth	£60.00 (siec 101254)
• Gwasanaeth Cyfieithu Ann Llwyd	£133.20 (siec 101255)
• Cymdeithion Sian Shakespear Associates	£875.00 (siec 101256)
• Adeiladwyr Eryri builders Cyf/Ltd	£1591.15 (siec 101257)
• Costau Clerc	£12.33(siec 101258)
• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£72.70 (siec 101259)
• Cyflog y Clerc (Gorffennaf)	£660.18(siec 101260)
• Un Llais Cymru	£85.00(siec 101261)*
• Bullfinch(Gas Equipment)	£432.00(siec 101262)*
• Dream Internet Solutions	£240.00(siec 101263)*

*Cyflwynwyd y biliau ychwanegol yma i'w talu yn y cyfarfod ers cyhoeddi'r agenda Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 11 Medi 2018**.

****Bydd y rhaglen yma yn cau 3 Medi 2018****

Atodiad A

Cylch Gorchwyl Pwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol Cyngor Tref Criccieth

1. Pwrpas ac Amcanion

Pwrpas y Pwyllgor yma yw gweithredu ar faterion o fewn y cylch gorchwyl ar faterion y cyfeiriwyd at y Pwyllgor gan y Cyngor.

Dyma'r materion y cyfeirir at y Pwyllgor:

- 1.1 Rheolaeth Cyllid
- 1.2 Pwrcasu
- 1.3 Materion Archwilio
- 1.4 Rheolaeth Eiddo
- 1.5 Polisiâu a rheolau'r Cyngor

2. Aelodaeth

- 2.1 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys o leiaf chwech o aelodau cyfredol o Gyngor Tref Criccieth gan gynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor, yr enwau i'w cytuno gan Gyngor Tref Criccieth. Bydd Clerc Cyngor Tref Criccieth yn mynychu'r cyfarfodydd *ex-officio*, heb bleidlais.
- 2.2 Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd Cyngor Tref Criccieth.
- 2.3 Yn absenoldeb y Cadeirydd ac Is-gadeirydd, bydd y Pwyllgor yn penodi Cadeirydd o'r aelodau presennol yn y cyfarfod.
- 2.4 Cworwm y Pwyllgor bydd 3 aelod.

3. Cylch Gorchwyl

- 3.1 Bydd y Pwyllgor yn paratoi a chyflwyno i'r Cyngor:
 - Cyllideb Flynyddol y Cyngor
 - Argymhellion ar gyfer y praesept
 - Unrhyw argymhellion priodol yn ymwneud â'r cyfrifon
- 3.2 Adolygu gweithgareddau pwrcasu a gwneud argymhellion i'r Cyngor
- 3.3 Monitro incwm a gwariant y Cyngor
- 3.4 Adolygu yswiriant y Cyngor
- 3.5 Ystyried unrhyw ddyledion i'r Cyngor ac argymhell i'r Cyngor sut mae delio gyda nhw
- 3.6 Ystyried adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ac allanol a gwneud argymhellion i'r Cyngor
- 3.7 Ystyried unrhyw adroddiadau allanol sy'n ymwneud â materion cyllidol a gwneud argymhellion i'r Cyngor
- 3.8 Ystyried ac argymhell lefelau lwfansau
- 3.9 Ystyried ac argymhell lefelau costau am wasanaethau.
- 3.10 I wneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer Polisi Grantiau y Cyngor
- 3.11 I wneud argymhellion i'r Cyngor ar gyfer benthyciadau ariannol
- 3.12 i wneud argymhellion i'r Cyngor ar gyfer:
 - Polisiâu'r Cyngor
 - Strwythur Pwyllgorau'r Cyngor
- 3.13 i ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â chyllid, polisi neu reolaethol y cyfeiriwyd at y Pwyllgor gan y Cyngor ac i wneud argymhellion i'r Cyngor.

4. Penderfyniadau/Gweithrediadau

4.2 Bydd argymhellion y Pwyllgor yn mynd gerbron y Cyngor Tref.

4.3 Bydd y Pwyllgor yn gweithredu yn unol â Rheoliadau Sefydlog a fabwysiadwyd gan y Cyngor Tref.

5 Cyfarfodydd

5.2 Cynhelir cyfarfodydd o'r Pwyllgor yn ôl yr angen, ac o leiaf dwywaith y flwyddyn.

5.3 Bydd rhybudd drwy e-bost i aelodau'r Pwyllgor o leiaf dri diwrnod cyn y cyfarfod gan gynnwys agenda a phapurau i'w hystyried yn y cyfarfod.

5.4 Bydd record o'r cyfarfodydd a'r nodiadau yn cael eu cadw a'u cylchredeg i'r aelodau ac yn cael eu cyflwyno i Gyngor Tref Criccieth. Bydd cofnodion y Cyngor yn cael eu cytuno a'u harwyddo yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

5.5 Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn arferol trwy gytundeb y Pwyllgor. Os bydd angen pleidlais, yna bydd gan bob aelod o'r Grŵp Llywio un bleidlais. Bydd angen i 4 o aelodau fod yn bresennol er mwyn gwneud penderfyniadau. Bydd angen mwyafrif o bleidleisiau ar gyfer cefnogi cais. Bydd gan y Cadeirydd un bleidlais benderfynol.

6 Newid i'r Cylch Gorchwyl

8.1 Bydd yn rhaid i unrhyw newid i'r cylch gorchwyl gael ei gytuno gan y Cyngor Tref